# Bwrdd Taliadau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Conference Room 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Gwener, 15 Tachwedd 2013** |
| Amser: | **09.30 – 15.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Sandy Blair CBE (Cadeirydd)**<br>**Mary Carter**<br>**Stuart Castledine**<br>**Monojit Chatterji** |
| Tystion: | **Elisabeth Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**Hannah Johnson**<br>**Ben Stokes** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)** |

## 1 Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro y Bwrdd yn ôl i'r cyfarfod.

## 2 Lwfansau Gofalwyr

2.1 Ystyriodd y Bwrdd bapur a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil sy'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a sut y mae'n cymharu â Deddfwrfeydd eraill yn y DU. Mae'r papur yn amlinellu modelau cymorth posibl hefyd.

2.2 Cytunodd y Bwrdd y dylid ystyried heriau a brofir gan sbectrwm ehangach o ofalwyr pan fydd y Bwrdd yn pwyso a mesur y Penderfyniad ar gyfer y pumed cynulliad.

2.3 Cytunodd y Bwrdd i beidio ag ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad ar yr opsiynau ar gyfer cefnogi Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu ar hyn o bryd, ond i ystyried y mater eto fel rhan o'r pecyn ar gyfer y pumed Cynulliad.

## 3 Cyfraddau rhenti llety

3.1 Nododd y Bwrdd fod y Cadeirydd wedi cael cais yn gofyn i'r Bwrdd Taliadau adolygu'r Gwariant Llety Preswyl sydd ar gael i Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol.

3.2 Ystyriodd y Bwrdd a oedd y terfyn presennol, sef £8,400 y flwyddyn yn ddigon, ac a ddylid ei adolygu ar unwaith, neu ei gynnwys fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ym mis Ebrill 2014.

3.3 Nododd y Bwrdd fod ystod fawr o brisiau rhenti yng Nghaerdydd, a chytunodd y dylid gwneud rhagor o waith ymchwil i'r farchnad rhentu yn y brifddinas yn y flwyddyn newydd, er mwyn cael asesiad mwy cywir.

Cam i'w gymryd:
Y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau i adolygu'r amrywiaeth o brisiau rhenti ar gyfer tai yng Nghaerdydd sydd o fewn y terfyn presennol, sef £8,400 y flwyddyn, ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

## 4 Treuliau eithriadol

4.1 Nododd y Bwrdd fod y Cadeirydd wedi cael cais yn gofyn i'r Bwrdd Taliadau adolygu'r treuliau eithriadol a ysgwyddir, neu sydd i gael eu hysgwyddo, gan Aelodau'r Cynulliad, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

4.2 Ystyriodd y Bwrdd bapur a oedd yn cadarnhau'r arfer presennol, ac yn nodi'r ffordd ymlaen bosibl. Roedd y papur, a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ceisio cael cydbwysedd rhwng yr angen am ddisgresiwn i'r sawl sy'n gwneud cais, ag arferion llywodraethu clir a chadarn.

4.3 Cytunodd y Bwrdd y dylid diwygio'r Penderfyniad, ac na ddylid cynnal ymgynghoriad ag Aelodau'r Cynulliad. Fodd bynnag, cytunodd y Bwrdd y dylid rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am unrhyw newidiadau a wnaed o ran treuliau eithriadol yn y Penderfyniad.

Cam i’w gymryd:
Yr ysgrifenyddiaeth neu’r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau i ddiwygio’r Penderfyniad i adlewyrchu’r cynigion yn y papur.

## 5 Ystyried y rhaglen waith

5.1 Nododd y Bwrdd raglen waith y Bwrdd Taliadau hyd at ddechrau 2015, sy’n cynnwys y gweithgareddau a fydd yn digwydd rhwng y cyfarfodydd.

5.2 Cytunodd y Bwrdd y dylai’r cyfarfodydd ar 21 Mawrth a 20 Mehefin gael eu trefnu dros dro fel cyfarfodydd deuddydd, o gofio faint o waith a fydd i gael ei ystyried yn y cyfarfodydd hynny.

5.3 Cytunodd y Bwrdd fod yn rhaid ystyried y cyfnod o 12 wythnos ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflogau Aelodau’r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad o fewn y rhaglenni gwaith sydd i gael eu hystyried gan y Bwrdd yn y dyfodol.

Cam i’w gymryd:

Yr ysgrifenyddiaeth i ysgrifennu at bob Aelod Cynulliad yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y materion a drafodwyd a’r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod hwn.